Cydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg a amlinellir yn ei Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol. Mae hwn yn grynodeb o'r hyn y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ymgymryd â hwy er mwyn cydymffurfio â'r Safonau a darparu cyfleoedd cyfartal ar gyfer ei gwsmeriaid i gyfathrebu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg

Safonau Cyflwyno Gwasanaethau

- Rydym wedi cyfathrebu â staff mewn perthynas ag ymateb i ohebiaeth, trefnu cyfarfodydd ac ateb y ffôn.
- Rydym wedi sicrhau bod staff yn cynnig y cyfle i bobl gael eu trosglwyddo i siaradwr Cymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor oni bai eu bod yn gallu delio â hwy yn Gymraeg.
- Rydym wedi darparu geiriad i staff ei gynnwys mewn templedi llythyrau ac ar negeseuon e-bost, yn rhoi gwybod i drigolion y gallant ofyn am ohebiaeth yn Gymraeg yn y dyfodol.
- Rydym wedi rhoi gwybod i staff sy'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus y dylai pob gwahoddiad i'r cyfarfod fod yn ddwyieithog, y dylid trefnu cyfieithwyr ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ac y dylai trefnwyr cyfarfodydd cyhoeddus atgoffa pobl ar ddechrau cyfarfodydd y gallant gyfrannu yn Gymraeg.
- Bydd yr holl ddogfennau a gynhyrchir i'w defnyddio gan y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys deunydd hyrwyddo a dogfennau arddangos.
- Mae'r rhyngwyneb a bwydlenni ar holl dudalennau'n gwefan yn ddwyieithog yn ogystal â'r cynnwys *.
- Mae'r holl staff wedi cael gwybod bod rhaid cynhyrchu arwydd newydd a rhai sy'n disodli hen rai yn ddwyieithog, a bod yn rhaid gosod y Gymraeg lle bydd yn cael ei darllen yn gyntaf
- Mae arwyddion wedi cael eu gosod mewn prif dderbynfeydd i ddatgan y gall pobl gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg
- Mae'r staff wedi cael gwybod bod gofyn iddynt gyfarch y cyhoedd yn ddwyieithog mewn ardaloedd cyhoeddus.
- Bydd pob hysbysiad cyhoeddus a hysbyseb yn ddwyieithog.
- Bydd pob ffurflen grant a dderbynnir yn Gymraeg yn derbyn ymateb yn Gymraeg a bydd angen i unrhyw gyfweliadau gael eu cynnal yn Gymraeg (gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd os oes angen)
- Ni fydd hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Safonau Gweithredol

Sut fydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r safonau gweithredol y mae dyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw:

- Rydym wedi adolygu ein Strategaeth Sgiliau Iaith i gynnwys manylion o ran y safonau gweithredol a'r goblygiadau ar gyfer y gweithlu.
- Rydym wedi cynhyrchu canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith ac mae'r ddogfen hon wedi cael ei chyhoeddi ar ein mewnrwyd.
- Rydym wedi cyflwyno proses AD lle byddwn yn gofyn i'r holl staff a ydynt yn dymuno derbyn eu contract cyflogaeth yn Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt yn dymuno derbyn gohebiaeth ar bapur yn ymwneud â'u cyflogaeth ac sydd wedi'i gyfeirio ato / ati yn bersonol (yn Gymraeg).
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt yn dymuno derbyn gohebiaeth ar bapur yn ymwneud â'u hanghenion neu eu gofynion hyfforddi yn y Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt yn dymuno derbyn dogfennau sy'n amlinellu eu hamcanion perfformiad yn Gymraeg a byddwn yn darparu'r dogfennau'n Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt yn dymuno derbyn dogfennau sy'n amlinellu eu cynllun gyrfa yn Gymraeg a byddwn yn darparu'r dogfennau'n Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad.
- Rydym wedi gofyn i'r holl staff a ydynt yn dymuno derbyn ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau, absenoldeb o'r gwaith ac oriau gwaith hyblyg yn y Gymraeg.
- Mae'r holl wybodaeth Adnoddau Dynol a Chyflogau perthnasol i staff wedi ei chyfieithu a'i llwytho ar y fewnrwyd
- Darparwyd meddalwedd cyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg i'r holl staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg os mai dyna yw eu dymuniad
- Rydym wedi cyfieithu testun tudalen hafan ein mewnrwyd i'r Gymraeg.
- Mae tudalennau wedi cael eu diweddaru ar y fewnrwyd sy'n darparu deunydd gwasanaethau a chymorth i hyrwyddo'r Gymraeg a chynorthwyo staff wrth ddefnyddio a dysgu'r Gymraeg.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr trwy hunanasesiad.
- Mae'r Cyngor yn mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i weithwyr dderbyn cyrsiau Cymraeg
- Mae'r Cyngor yn darparu cyfleoedd i staff sydd eisiau datblygu eu hyfforddiant Cymraeg sylfaenol trwy gynnig hyfforddiant pellach.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu modiwl e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth staff o'r Gymraeg.
- Darperir Gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i unrhyw staff newydd.
- Rydym wedi darparu geiriad i staff ei ddefnyddio ar eu llofnod e-bost, i hysbysu pobl os ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr.

Safonau Llunio Polisi

- Byddwn yn gofyn i reolwyr ystyried effeithiau unrhyw bolisi newydd (neu ddiwygiadau i bolisi) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Pan fydd polisi newydd yn cael ei lunio, byddwn yn sicrhau bod yr holl reolwyr yn ymwybodol o'r angen i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy gyflwyno adran ar adroddiadau ffurfiol gan y Cyngor a fydd yn dangos pa fath o ystyriaeth a roddwyd i'r Gymraeg.
- Os comisiynir ymchwil a fwriedir i gynorthwyo gyda llunio polisïau, byddwn yn sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi er mwyn sicrhau nad yw'n cael effaith negyddol ar y Gymraeg.
- Byddwn yn rhoi gwybod i reolwyr i sicrhau bod unrhyw ymgynghori ar bolisïau yn cynnig y cyfle i bobl wneud sylwadau ar effeithiau unrhyw bolisïau newydd ar ddefnydd y Gymraeg.
- Byddwn yn cyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau
- Byddwn yn cynnal ac yn ailedrych ar ein rhestr o siaradwyr Cymraeg bob 6 mis

Cadw Cofnodion

- Byddwn yn cadw cofnod o nifer y cwynion a dderbyniwn yn ymwneud â'n cydymffurfiaeth â'r Safonau a byddwn yn adrodd yn ôl i Gomisiynydd y Gymraeg yn flynyddol.
- Byddwn yn cadw copi o'r cwynion ysgrifenedig a gawn ac yn llunio unrhyw gwynion a fydd yn cael eu cadw'n ganolog gan y Tîm Cyfathrebu.
- Byddwn yn cadw cofnod o nifer y gweithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg drwy osod y wybodaeth ar ein systemau Adnoddau Dynol.
- Byddwn yn cynnal archwiliad blynyddol o nifer y swyddi lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol, lle mae angen dysgu ar ôl cael eu penodi i'r swydd, lle maent yn ddymunol a lle nad yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.
- Byddwn yn cynnal archwiliad sgiliau iaith Gymraeg blynyddol i sicrhau bod y nifer cywir o staff yn yr adrannau cywir i ddarparu gwasanaeth dwyieithog
- Byddwn yn llunio adroddiadau monitro blynyddol ar ein perfformiad o ran cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Llunio Polisi a'r safonau Gweithredol y bu'n rhaid i ni gydymffurfio â hwy.